Cwestiynau gan y Cyhoedd a gyflwynwyd ymlaen llaw i'r Bwrdd Iechyd 28 Medi 2023

Cwestiwn	Codwyd gan	Ateb
Mae'r bwrdd iechyd wedi penodi dwy nyrs fand 5 o dramor i Ysbyty Dolgellau; ar yr un pryd, mae'r bwrdd yn honni bod angen nyrsys band 5 yn Nhywyn cyn bo modd ailagor y ward i gleifion mewnol. Mae'r bwrdd iechyd wedi datgan hefyd nad ydynt yn gwybod pryd neu os caiff rhagor o nyrsys eu recriwtio o dramor ar gyfer Tywyn. Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i flaenoriaethu Dolgellau dros Dywyn. Esboniwch.	Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn	Mae Ysbyty Dolgellau ac Ysbyty Tywyn wedi cael swyddi gwag ac anawsterau recriwtio parhaus dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae staffio diogel ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol oherwydd y natur 24/7 wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ar y ddau safle ac o ganlyniad, cafodd gwasanaethau fel Unedau Mân Anafiadau (MIU) eu cau dros dro a chafodd staff eu hadleoli i weithio ar y wardiau. Yn dilyn recriwtio'n llwyddiannus, mae MIU Tywyn wedi ailagor, ond mae MIU Dolgellau yn parhau i fod ar gau wrth i ni barhau i geisio recriwtio i'r swyddi gwag. Ym mis Ebrill eleni, seiliwyd y penderfyniad i gyfuno staff y ward ar y safle yn Nolgellau ar y gallu i uchafu nifer y gwelyau ar gyfer ardal de Meirionnydd. Safle Dolgellau sy'n darparu'r capasiti mwyaf o ran gwelyau i gleifion mewnol, mae 18 o welyau ar hyn o bryd gyda'r opsiwn o gynyddu niferoedd y gwelyau ymhellach. Y nifer uchaf posibl o welyau yn Nhywyn fyddai 16 o welyau, felly roedd opsiwn Dolgellau yn cynnig y dewis gorau o ran uchafu capasti o welyau a lleihau'r risg gyffredinol o golli capasiti gwelyau yn Nhywyn dros dro. Fel y nodwyd, mae dwy nyrs ychwanegol o dramor wedi cael eu penodi i weithio yn Ysbyty Dolgellau sydd wedi llenwi'r swyddi gwag sy'n weddill ar y ward. Mae hyn yn golygu mai cyfanswm y nyrsys o dramor a gyflogir yn Nolgellau yw pedwar erbyn hyn, ac nid oes unrhyw swyddi gwag ar y ward ar hyn o bryd. Dylid nodi hefyd, ar adeg eu penodi, y cynigiwyd cyflogaeth i'r nyrsys o dramor yn Ysbyty Dolgellau ac Ysbyty Tywyn, ond gwnaeth y nyrsys ddewis Ysbyty Dolgellau. Rydym yn aros am gadarnhad ar hyn o bryd ynghylch ein llwyddiant

Cwestiwn	Codwyd gan	Ateb
		o ran recriwtio dwy nyrs ychwanegol o dramor ac os byddant yn llwyddiannus, bydd y nyrsys hyn yn dechrau yn eu swyddi yn Nhywyn. Er bod gwelyau cleifion mewnol a staffio cysylltiedig wedi'u cyfuno ar safle Dolgellau, gwnaed y penderfyniad hwn yng nghyd-destun sicrhau bod modd darparu cynifer o welyau â phosibl ar gyfer yr ardal, tra'r oedd ward cleifion mewnol Tywyn ar gau dros dro. Mae gwasanaethau eraill nad ydynt yn ymwneud â chleifion wedi cael eu datblygu yn Nhywyn (megis Tuag Adref, Ystafell Driniaeth ac ailagor yr Uned Mân Anafiadau), ond nid yw'r gwasanaethau hyn ar gael yn Nolgellau ar hyn o bryd.
Mae cyflogi nyrsys asiantaethau ar gontractau hirach yn opsiwn arall i'r bwrdd iechyd. Pe bai'r ddwy nyrs band 5 wedi cael eu neilltuo i Dywyn, yna gallai'r drydedd nyrs band 5 y mae dal ei hangen fod wedi bod yn nyrs asiantaeth hyd nes i recriwtio pellach fynd rhagddo. Yn ogystal, nid oes dim hysbysebion ar gyfer y swyddi band 5 i'w cael ar-lein ar hyn o bryd. Pam nad yw'r bwrdd iechyd yn ystyried pob ffordd bosibl o recriwtio nyrsys?	Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn	Cafodd staff asiantaethau eu contractio i weithio yn Ysbyty Tywyn yn ystod yr wythnosau a arweiniodd at y penderfyniad i gau gwelyau'r cleifion mewnol dros dro. Nid oedd natur annibynadwy staff asiantaeth, nad oeddent yn aml yn troi i fyny ar gyfer eu sifftiau ar fyr rybudd/ar y diwrnod, yn ffordd ddiogel neu ddibynadwy o staffio ward y cleifion mewnol. Roedd natur anrhagweladwy staff asiantaeth o ran troi i fyny am sifftiau'n rhoi staff parhaol o dan fwy o bwysau i gyflenwi'r sifftiau ar eu diwrnodau i ffwrdd a gwyliau blynyddol, roedd hyn yn ffactor mawr a oedd yn cyfrannu at y penderfyniad i gau'r gwelyau i gleifion mewnol dros dro yn Nhywyn. Mae gennym ddyletswydd gofal tuag at ein staff ac at sicrhau eu lles, roedd hyn yn ffactor mawr a oedd yn cyfrannu at y penderfyniad i gau'r gwelyau i gleifion mewnol dros dro yn Nhywyn. Mae'r holl gyfleoedd o ran recriwtio wrthi'n cael eu hystyried gan gynnwys hysbysebion cenedlaethol: Dyddiadau y mae'r swydd Band 5 yn Nhywyn wedi cael ei hysbysebu:

Cwestiwn	Codwyd gan	Ateb
		1. Mawrth 23- dyddiad cau 23/03/23- Dim ymgeiswyr addas 2. Ebrill 23- dyddiad cau 17/04/2023- Dim ymgeiswyr addas 3. Mai 23- dyddiad cau 08/05/2023- Dim ymgeiswyr addas 4. Mai 23 - dyddiad cau 29/05/2023 - Cynhaliwyd cyfweliadau 08/06 a phenodwyd i'r swydd hefyd. Oedi o ran ailhysbysebu yn dilyn cyfweliadau oherwydd cyfnod pan nad oedd Trac ar gael a'r angen i fwrw ymlaen gyda rhai camau gweithredu yn y system i fwrw ymlaen â phenodi cyn gallu ailhysbysebu'r swydd. 5. Gorffennaf 23- dyddiad dau 16/08/2023 – Dim ymgeiswyr addas Yn dilyn y cylch recriwtio diwethaf, mae'r swydd wedi gorfod mynd trwy'r drefn briodol eto gan fod cymeradwyaeth rheoli'r sefydliad wedi dod i ben. Gofynnwyd am gymeradwyaeth rheoli'r sefydliad o'r newydd a bydd yr hysbyseb yn ymddangos ar-lein unwaith eto dros yr ychydig ddiwrnodau nesaf. Ochr yn ochr â'r hysbysebion, rydym hefyd wedi treialu ymgyrchoedd wedi'u targedu ar y cyfryngau cymdeithasol trwy Facebook, sydd wedi'u hanelu at nyrsys cofrestredig yn benodol, mewn ymgais i wella ymwybyddiaeth a diddordeb yn y swyddi gwag. Mae taflenni, posteri a baneri lleol i hysbysebu cyfleoedd i weithio ar gyfer lleoedd yn BIPBC wedi cael eu dosbarthu'n lleol dros yr ychydig fisoedd diwethaf, ac yn fwyaf diweddar ar gyfer digwyddiad Ras y Trên. Mae hyn yn cael ei wneud trwy ymgyrch wedi'i thargedu ar y cyfryngau cymdeithasol. Fel y nodwyd, mae recriwtio o dramor hefyd yn cael ei ystyried ac rydym yn aros am ganlyniad recriwtio i swyddi gwag yn Nhywyn.

Cwestiwn	Codwyd gan	Ateb
Pam nad yw'r bwrdd iechyd wedi trosglwyddo'r rhestrau llety a ddarparwyd gan Gyngor Tref Tywyn i ddarpar benodeion? A pham nad yw'r bwrdd iechyd wedi manteisio ar unrhyw rai o'r opsiynau llety eu hunain, gan fod cynrychiolwyr y bwrdd iechyd wedi datgan y byddent yn mynychu'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mai	Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn	Rydym wedi bod yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth y mae'r gymuned leol wedi'i dangos o ran cydnabod y problemau llety sy'n wynebu'r rhai sy'n awyddus i adleoli i ardal Tywyn. Mae'r rhestr o eiddo sydd ar gael a roddwyd i ni yn garedig iawn wedi cael eu rhannu gydag ymgeiswyr, ac rydym wedi derbyn adborth gan aelodau Cyngor Tref Tywyn eu bod wedi bod yn rhoi cymorth gydag ymholiadau parhaus ynghylch llety gan unigolion sydd wedi cysylltu â nhw. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu fel cyfryngwr ar wahân i rannu'r wybodaeth gydag ymgeiswyr/ceiswyr. Rydym wedi parhau i dynnu sylw at fater llety fel problem barhaus gyda chynghorwyr lleol, cynrychiolwyr AC ac AS, gydag argaeledd a fforddiadwyedd yn rhwystr posibl o ran denu aelodau newydd o staff i'r ardal, yn enwedig yn achos bandiau cyflog â thâl is.
A fyddai modd i'r bwrdd gadarnhau bod y cyfarfodydd a gynhelir bob pythefnos gyda chynghorwyr, yr AC a'r AS yn dal i gael eu cynnal, o ystyried bod ward cleifion mewnol Ysbyty Tywyn wedi bod ar gau am chwe mis erbyn hyn?	Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn	Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal rhwng cynghorwyr lleol, cynrychiolwyr AC/AS, bob pythefnos yn y lle cyntaf a bellach yn cael eu cynnal bob mis. Amserlen y cyfarfodydd a gynhaliwyd hyd yma: • 18 Ebrill 2023 15:30-16:30pm • 28 Ebrill 2023 10-11am • 12 Mai 2023 10-11am – Canslwyd y cyfarfod oherwydd ymweliad ag Ysbyty Tywyn gyda'r Gweinidog Iechyd Eluned Morgan, bu cynghorwyr yn bresennol yn y cyfarfod hwn. • 26 Mai 2023 10-11am • 9 Mehefin 2023 10-11am • 23 Mehefin 2023 10-11am • 7 Gorffennaf 2023 10-11am

Cwestiwn	Codwyd gan	Ateb
		• 21 Gorffennaf 2023 10-11am- Canslwyd y cyfarfod yn dilyn ymweliad gyda'r Cadeirydd ar 18 Gorffennaf â'r safle lle rhoddwyd diweddariad, bu cynghorwyr a'r AS yn bresennol yn y cyfarfod hwn. • 4 Awst 2023 10-11am- Cytunwyd i newid o gyfarfodydd bob pythefnos i gyfarfodydd misol • 1 Medi 2023 10-11am – yn y cyfarfod hwn, cytunwyd ar y ddau ddyddiad cyfarfod canlynol a chânt eu cynnal 13 Hydref a 10 Tachwedd 2023
Mae siart yn dadansoddi gwasanaethau iechyd a ddarperir yn Nolgellau a Thywyn a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth Ysbytai Cymunedol, ynghlwm, yn dangos bod gostyngiad sylweddol wedi bod o ran gwasanaethau iechyd yn Nhywyn ers 2017. Rhowch fanylion am y cynllun yn ymwneud ag adfer y gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau ein bod o leiaf yn cael dychwelyd at yr un lefel o ddarpariaeth ag a welsom chwe blynedd yn ôl.	Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn	Ni allwn roi ymateb llawn o fewn y terfyn amser. Bydd y wybodaeth hon yn gofyn am adolygu ac ymchwilio pellach, gan nodi bod rhai gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau dan arweiniad meddygon ymgynghorol, cael eu darparu gan Hywel Dda. Byddwn yn ymateb yn llawn unwaith y byddwn yn derbyn y wybodaeth gan y gwasanaethau amrywiol - sydd yn BIPBC a'r tu allan iddo.
Mae gardd Ysbyty Tywyn yn dal i fod yn dir diffaith. Gwnaeth y bwrdd iechyd ddymchwel yr ardd bresennol yn llwyr chwe mis yn ôl pan gaeodd y ward i gleifion mewnol. Roedd yr ardd wedi cael ei chreu a'i meithrin gan wirfoddolwyr lleol, a chafodd rhoddion eu defnyddio i dalu am addurniadau, planhigion a llwyni i'r ardd. Cynhaliwyd digwyddiad agoriadol arbennig yn 2019. Roedd yr ardd yn llecyn hardd a ddefnyddiwyd gan gleifion, staff ac ymwelwyr.	Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn	Rydym wedi bod yn ffodus i dderbyn cyllid grant i ddarparu cyfleusterau awyr agored/gardd sy'n deall dementia ar gyfer pob un o'n hysbytai cymunedol. Mae Ysbyty Tywyn yn un o'r safleoedd cyntaf i elwa ar y cyllid hwn ac mae'r gwaith yn dod yn ei flaen yn dda. Mae planhigion ac eitemau coffa gwreiddiol gan gynnwys meinciau wedi cael eu symud o ardal yr ardd er mwyn eu cadw'n ddiogel yn ystod y gwaith adnewyddu, a byddant yn dychwelyd i'r ardd ar adeg cwblhau'r cynllun a disgwylir i hynny ddigwydd ddechrau mis Hydref.

Cwestiwn	Codwyd gan	Ateb
Ni fu unrhyw waith pellach i gwblhau beth bynnag yr oedd y bwrdd yn bwriadu ei wneud. Os oes gan y bwrdd gynllun i adfer yr adnodd hynod werthfawr hwn, rhowch yr holl fanylion a'r amserlenni perthnasol ar gyfer cwblhau'r gwaith.		